



Y RHWYDWAITH
YMCHWIL IECHYD
MEWN YSGOLION

THE SCHOOL
HEALTH RESEARCH
NETWORK

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion

Holiadur Amgylchedd yr Ysgol
Ffeithlen



Trosolwg

Mae'r daflen wybodaeth hon yn darparu gwybodaeth am Holiadur Amgylchedd yr Ysgol y Rhwydwaith. Mae'n cynnwys gwybodaeth am beth yw'r Holiadur, ei fuddion i ysgolion a rhanddeiliaid ehangach, ac mae'n darparu manylion am gasgliad data 2024 i ysgolion cynradd.



Cyflwyniad

Mae Holiadur Amgylchedd yr Ysgol y Rhwydwaith yn cael ei lenwi gan aelod o Dîm Arwain yr Ysgol bob dwy flynedd, ar yr un pryd ag y mae Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith yn cael ei roi i ddysgwyr.

O'i ddefnyddio ar y cyd â'r arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr dwyflynyddol, mae'n creu set ddata gynhwysfawr unigryw i archwilio'r cysylltiadau rhwng polisiau ac arferion yr ysgol (e.e. arweinyddiaeth yr ysgol; ethos yr ysgol; amgylchedd yr ysgol; dysgu'r cwricwlwm, ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned) a deilliannau Iechyd a Lles dysgwyr.

Nodwyd bod yr arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr a Holiadur Amgylchedd yr Ysgol yn ffynonellau data allweddol sy'n cynorthwyo ysgolion i wreiddio [Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol](#).



Y buddion i ysgolion sy'n llenwi'r Holiadur

Mae data'r Holiadur yn galluogi ysgolion i:

- **Asesu iechyd a lles eu dysgwyr** yng nghyd-destun polisiau ac arferion eu hysgol eu hunain.
- **Hunanwerthuso eu gwelliannau i iechyd a lles** wrth fonitro eu polisiau a'u harferion lefel ysgol.
- **Cymharu data amgylchedd eu hysgol eu hunain gyda data'r Holiadur yn genedlaethol.**
- **Defnyddio data'r Rhwydwaith ar gyfer arolygiadau ysgolion.** Mae data'r Arolwg a'r Holiadur ill dau yn ffynonellau data allweddol a argymhellir ar gyfer arolygiadau [Estyn](#).



Buddion rhanbarthol a chenedlaethol ehangach defnyddio data

Mae buddion ehangach data'r Holiadur yn cynnwys:

- **Mae'n cefnogi ac yn llywio polisiau cenedlaethol, gan gynnwys y dull ysgol gyfan.** Mae partneriaeth y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sicrhau bod gan gasgliad data'r Rhwydwaith gynnwys sy'n cefnogi anghenion polisi ac ymarfer presennol. Yn fwyaf diweddar, fe wnaeth y rhain gynnwys y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol, Ysgolion Bro, Hawliau Plant a Chymru sy'n Falch o'r Mislif.
- Mae data'r Holiadur yn galluogi cynnydd ar lefel yr ysgol i gael ei fesur, gyda data'n cael ei nodi'n ffynhonnell allweddol ar gyfer diwygiadau Llywodraeth Cymru i'r cwricwlwm. Mae'r Rhwydwaith wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu data Sicrhau Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer y [Rhwydwaith Ysgolion sy'n Hyrwyddo Iechyd a Lles \(WNHWPS\)](#).
- **Hwyluso'r gwaith o fonitro gweithredu polisiau ysgol a nodi arfer arloesol.** Mae casglu data'r Rhwydwaith ar bolisiau ac arferion lefel ysgol yn galluogi monitro sut caiff polisi cenedlaethol ei weithredu, ymchwilio i effeithiau'r ysgol ar ddeilliannau dysgwyr, a nodi arfer arloesol ar lefel ysgol y gellir ei fireinio, ei werthuso a'i gyflwyno ledled Cymru.

- Mae enghreifftiau o waith a gyhoeddwyd yn flaenorol yn cynnwys perthnasoedd rhwng polisïau'r ysgol ar ysmegu a dysgwyr yn ysmegu, fepio a defnyddio canabis; effeithiau cyfansoddiad a diwylliant yr ysgol ar ddeilliannau iechyd dysgwyr; a dulliau rhagfynegi (an)weithgarwch corfforol ar lefel unigolyn ac ysgol. I weld ein gweminar, cliciwch [yma](#).
- **Darparu plattform i ddeall y pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn well.** Ers 2017, mae'r Rhwydwaith wedi llwyddo i gynnwys bron pawb mewn ysgolion uwchradd ac mae wedi ehangu'n llwyddiannus i ysgolion cynradd. Mae'r data hwn yn rhoi cipolygon i effeithiau pontio ysgolion ar ddeilliannau dysgwyr a gellir gweithredu ar y cipolygon hyn, ac mae'n cefnogi polisïau i wella cyrhaeddiad a deilliannau lles.



Amserlen casglu data'r Holiadur ar gyfer ysgolion.

Bydd yr Holiadur yn cael ei lenwi gan aelod o Dîm Arwain yr Ysgol bob dwy flynedd ar yr un pryd ag y mae Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith yn cael ei roi i ddysgwyr.

Bydd casglu data Holiadur 2024 yn digwydd mewn ysgolion cynradd cofrestredig rhwng 16 Medi ac 20 Rhagfyr 2024. Yn nodweddiadol, caiff adroddiadau'r Holiadur eu rhyddhau yn ystod tymor yr haf.

Yn achos ysgolion cynradd na wnaethant gofrestru ar gyfer 2024, bydd y cyfle nesaf iddynt ymuno â'r casgliad data ysgolion cynradd dwyflynyddol yn ystod haf 2026. Bydd ysgolion uwchradd sy'n cofrestru yn nhymor yr haf 2025 wedyn yn llenwi eu holiadur yn nhymor yr hydref canlynol yn 2025.



Adnoddau Ychwanegol

Darllenwch [Adroddiadau Cenedlaethol y Rhwydwaith](#).

I ddarllen ein llwyddiannau ac astudiaethau achos ein hysgolion, cliciwch [yma](#).

I ddarllen ein llyfryn gwybodaeth i ysgolion cynradd, cliciwch [yma](#).

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, e-bostiwch shrn@cardiff.ac.uk.



Y RHWYDWAITH
YMCHWIL IECHYD
MEWN YSGOLION

THE SCHOOL
HEALTH RESEARCH
NETWORK

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion
(SHRN)

SBARK, Heol Maendy, Caerdydd CF24 4HQ

The School Health Research Network (SHRN)

SPARK, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ

[X@SHRNWales](#) shrn.org.uk